# Y Pwyllgor Deisebau

## Cofnodion (PET(3)-16-09)

**Dyddiad: Dydd Mawrth, 24 Tachwedd 2009**
**Amser: 09.30 - 10:10**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Val Lloyd AC, Dwyrain Abertawe (Cadeirydd)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru

Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion

Naomi Stocks, Clerc

Andrew Minnis, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan Michael German. Nid oedd neb ar gael i ddirprwyo ar ei ran.

### Eitem 2: Deisebau newydd

#### (i) P-03-244 Cofrestr ar gyfer cynlluniau diogelwch y ffordd awdurdodau lleol

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a nododd ohebiaeth y Cadeirydd â'r Dirprwy Brif Weinidog.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhoi gwybod iddynt am y ddeiseb ac yn gofyn am eu barn.

#### (ii) P-03-246 Rhowch y gorau i'r terfyn cyflymder 50mya ar yr M4 yng Nghasnewydd

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a nododd ohebiaeth y Cadeirydd â'r Dirprwy Brif Weinidog.

.

#### (iii) P-03-254 Sylwadau trydydd parti mewn cyfarfodydd cynllunio

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a nododd ohebiaeth y Cadeirydd â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

#### (iv) P-03-256 Trenau ychwanegol i Abergwaun

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a nododd ohebiaeth y Cadeirydd â'r Pwyllgor Menter a Dysgu a'r Dirprwy Brif Weinidog. Nododd y Pwyllgor fod y ddeiseb wedi'i thrafod gan y Pwyllgor Menter a Dysgu a phenderfynodd ystyried trawsgrifiad y cyfarfod hwnnw cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Deisebau.

### Eitem 3: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

#### (i) P-03-205 Cadwch Farchnad Da Byw y Fenni

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol gyda chyflwyniadau'n amgaeedig gan bawb sy'n berthnasol ac yn gofyn fod y Pwyllgor yn cael gwybod os derbynnir cais am ddiddymu'r Deddfau.

Ysgrifennu at y prif ddeisebydd yn rhoi gwybod iddo am benderfyniad y Pwyllgor, yn esbonio bod y Pwyllgor wedi gwneud popeth posibl yn absenoldeb cais am ddiddymu, ac yn gofyn iddo gysylltu â'r Pwyllgor pe byddai'n dod yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau pellach gan y cyngor i wneud cais am ddiddymu'r Deddfau.

**(ii) P-03-216 Triniaeth IVF**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr yn rhoi gwybod iddynt am y camau a gymerwyd gan y Gweinidog yn ymestyn triniaeth IVF i ddwy driniaeth a cheisio eu safbwyntiau ar hyn.

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am wiriad fod gallu i ddarparu dau gylch o driniaeth IVF ac yn gofyn am fanylion sut y darperir hyn â'r adnoddau sydd ar gael.

**(iii) P-03-217 Llyfrgell Genedlaethol Cymru - agor ar ddydd Sadwrn**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Dreftadaeth yn gofyn pryd y disgwylir penderfyniad ar setliad y gyllideb am y flwyddyn 2010-11, o gofio bod y llyfrgell wedi dweud na allant ailagor hyd eu bod yn sicr o'u sefyllfa o ran arian. Hefyd, cytunodd y Pwyllgor i ofyn sut mae statws presennol y llyfrgell yn cydweddu â datganiad diweddar y Gweinidog yn y Cyfarfod Llawn ynghylch llyfrgelloedd yng Nghymru.

Ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn rhoi gwybod iddi fod y ddeiseb yn dal yn agored, bod y Pwyllgor Deisebau yn aros am ymateb gan y Gweinidog ac yn gofyn i'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant gadw cofnod o'r ddeiseb.

**(iv) P-03-221 Gwell triniaeth traed drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am gadarnhad pryd y bydd yr adroddiad cwmpasu wedi'i gwblhau ac yn gofyn am gael gwybod darganfyddiadau'r adroddiad cyn gynted ag y bydd yr adroddiad ar gael.

**(v) P-03-222 Y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn rhoi gwybod iddynt am y ddeiseb ac yn gofyn iddynt a fydd eu hadolygiad o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn rhoi sylw i'r materion dan sylw.

Ysgrifennu at y deisebwyr yn rhoi gwybodaeth iddynt beth oedd ateb y Gweinidog ac yn gofyn am atborth ar eu trafodaethau â'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**(vi) P-03-224 Meithrinfa Stepping Stones**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn gofyn am ragor o fanylion ar fformat yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Gofal Plant newydd i Gymru; bod y deisebydd yn cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad; ac yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am archwiliadau A Oes Digon o Ofal Plant yn yr Ardal a gynhaliwyd ar y cyd ag awdurdodau lleol a darganfyddiadau archwiliadau.

Ysgrifennu at y deisebwyr yn rhoi gwybod iddynt beth oedd ymateb y Gweinidog yn arbennig o ran y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn lleol.

**(vii) P-03-225 Coleg Gorseinon**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at bennaeth Coleg Gorseinon yn rhoi gwybod iddo am ymateb y Gweinidog, ac yn tynnu sylw at ganllawiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a nodwyd, ac yn gofyn am fanylion unrhyw geisiadau am arian nad ydynt wedi'u hateb, ac unrhyw oedi o ran cymeradwyo ceisiadau.

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn a oes unrhyw faterion penodol yn dod i'r amlwg mewn cysylltiad â chynigion a gyflwynwyd gan nifer o sefydliadau yn hytrach nag un sefydliad.

Ysgrifennu at Golegau Cymru yn rhoi gwybod iddynt am y ddeiseb ac yn gofyn iddynt am wybodaeth ar unrhyw drafferthion a gafwyd gan golegau wrth geisio cael mynediad at arian Ewropeaidd.

**(viii) P-03-231 Pa mor agos yw tyrbinau gwynt at dai preswyl**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr yn eu hysbysu o'r ymateb gan Lywodraeth yr Alban, gan gyfeirio'n benodol at y ffaith nad yw'r gofyniad lleiaf sef 2KM yn yr Alban y safon leiaf.

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi gwybod iddi am y ddeiseb ac yn gofyn ei barn ar y materion a godwyd gan y deisebydd ar effeithiau ar iechyd posibl tyrbinau gwynt, ac yn benodol, a oes unrhyw dystiolaeth ar gael ynglŷn â hyn.

**(ix) P-03-251 Gwahardd Gwelyau Haul**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am gael gwybod am y cynnydd a wnaed tuag wahardd gwelyau haul heb oruchwyliaeth.

**(x) P-03-252 Gwrthwynebu Ffordd Fynediad Ogleddol arfaethedig (trigolion Trebefered)**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i :

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn crynhoi ymateb y deisebydd, ac yn gofyn a yw'n ymwybodol o'r materion a godwyd a gofyn am sicrwydd am yr ystadegau y cyfeirir atynt yn y cais cynllunio.

## Eitem 4: Adolygu hynt deisebau

**(i) P-03-100 Cyffordd Tesco**

Bu'r Pwyllgor yn adolygu hynt y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad yr astudiaeth dichonoldeb.

**(ii) P-03-150 Safonau Canser Cenedlaethol**

Bu'r Pwyllgor yn adolygu hynt y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am fanylion canfyddiadau adroddiad cryno Grŵp Cydlynu Gwasanaethau Canser Cymru gyfan o ran asesu safonau cydymffurfio â'r Safonau Canser Cenedlaethol.

**(iii) P-03-153 Celf Corff**

Bu'r Pwyllgor yn adolygu hynt y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am wybodaeth am asesiad o'r opsiynau rheoleiddio mewn cysylltiad â thriniaethau cosmetig anllawfeddygol a ddarperir yn y sector preifat.

**(iv) P-03-156 Dal anadl wrth gysgu**

Bu'r Pwyllgor yn adolygu hynt y ddeiseb hon

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am fanylion canlyniadau'r archwiliad a wnaed o gynnydd Byrddau Iechyd Lleol yn gweithredu'r Cyfarwyddebau Anadlu a fwriadwyd ar gyfer mis Medi 2009.

**(v) P-03-162 Diogelwch y ffordd yn Llanspyddid**

Bu'r Pwyllgor yn adolygu hynt y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn am fanylion pryd fydd yr adolygiad o ddiogelwch trwy Llanspyddid, a oedd i'w gynnal yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau newydd ar "Osod Terfynau Cyflymder yng Nghymru", yn cael ei gwblhau.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2009**